

Adroddiad Arolygu Ysbyty (Dirybudd)

Ward Claerwen, Ysbyty Coffa
Llandrindod, Bwrdd Iechyd Addysgu
Powys

Dyddiad yr arolygiad: 17 a 18 Ionawr 2023

Dyddiad cyhoeddi: 20 Ebrill 2023



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein [gwefan](#) neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: AGIC@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

ISBN Digidol 978-1-80535-833-6

© Hawlfraint y Goron 2023

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud. Rydym yn:

- Annibynnol - rydym yn ddiduedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac sy'n dylanwadu arno

Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'r arolygiad	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym	9
	• Ansawdd Profiad y Claf	9
	• Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol	13
	• Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth	22
4.	Y camau nesaf	25
	Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad	26
	Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith	28
	Atodiad C - Cynllun gwella.....	29

1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad dirybudd yn Ysbyty Coffa Llandrindod, Bwrdd Iechyd Addysgu Powys ar 17 a 18 Ionawr 2023.

Gwnaethom arolygu Ward Claerwen, sy'n darparu gwasanaethau adsefydlu i'r henoed a gwasanaethau gofal lliniarol. Ar adeg yr arolygiad, roedd cleifion ym mhob un o 21 o welyau'r ward.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau Arolygydd Gofal Iechyd AGIC, dau adolygydd cymheiriaid clinigol ac un adolygydd profiad y claf. Arweiniwyd yr arolygiad gan un o Uwch-arolygwyr Gofal Iechyd AGIC.

Nodwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

Mae'r adroddiad (llawn) hwn wedi'i gynllunio ar gyfer y lleoliad, ac mae'n disgrifio'r holl ganfyddiadau sy'n ymwneud â darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Mae fersiwn gryno o'r adroddiad, sydd wedi'i chynllunio ar gyfer aelodau'r cyhoedd, ar gael ar ein [gwefan](#).

2. Crynodeb o'r arolygiad

Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom dystiolaeth fod y staff yn rhoi gofal gan ddangos parch ac urddas. Roedd y cleifion yn cael eu hannog i fod yn weithgar ac yn cael cyfarpar i'w helpu i gerdded a symud. Gwelsom enghreifftiau o'r therapyddion galwedigaethol a'r cynorthwyr yn gweithio'n dda gyda'r cleifion drwy gydol yr arolygiad. Gwelsom dystiolaeth o rai mentrau a oedd wedi cael eu cyflwyno er mwyn helpu i ofalu am gleifion sy'n byw gyda dementia. Rhoddodd y cleifion y gwnaethom siarad â nhw yn ystod yr arolygiad adborth cadarnhaol am y gofal roeddent wedi'i gael yn ystod eu cyfnod ar y ward.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Gellid sicrhau ei bod hi'n haws i'r cleifion wybod pa staff sy'n siarad Cymraeg, er enghraifft drwy wisgo bathodyn 'iaith gwaith'
- Gellid gwneud rhagor o waith i fanteisio'n llawn ar yr holl fentrau sydd ar gael ar y ward er mwyn darparu gofal dementia sy'n cydymffurfio â'r canllawiau arferion gorau
- Dylid rhoi proses ffurfiol reolaidd ar waith ar gyfer casglu adborth gan y cleifion a chan aelodau o'u teuluoedd a gofalwyr.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd y staff yn diwallu anghenion y cleifion mewn ffordd gynnil a phroffesiynol. Roedd hyn yn arbennig o amlwg mewn perthynas â'r gofal a oedd yn cael ei roi i gleifion yr oedd angen gofal lliniarol arnynt
- Roedd manged dadactifadu diffibrilwyr ar gael er mwyn helpu i gynnig mwy o urddas i gleifion â diffibrilwyr cardiaidd y gellir eu mewnbllannu yr oedd angen gofal diwedd oes arnynt.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom fod y staff yn ymrwymedig i ddarparu gofal diogel ac effeithiol i'r cleifion. Roedd cyfarpar addas ar gael ac yn cael ei ddefnyddio er mwyn helpu i atal y cleifion rhag datblygu briwiau pwyso ac i'w hatal rhag cwmpo. Cawsom sicrwydd fod meddyginiaethau yn cael eu rheoli a'u storio mewn ffordd ddiogel ac effeithiol. Roedd technegydd fferyllol yn rhoi cymorth da i'r staff ar y ward. Ar y cyfan, gwelsom fod y safonau sydd wedi'u nodi yn llwybr Gofal Maeth Ysbytai Cymru Gyfan yn cael eu cyrraedd.

Achosion lle mae angen sicrwydd ar unwaith:

Drwy gydol yr arolygiad, roedd gennym bryderon am y trefniadau a oedd ar waith i reoli argyfyngau yn ymwneud â chleifion yn ddiogel:

- Ni allem gael sicrwydd o ran p'un a oedd yr eitemau cyfarpar brys yn gyfredol gan nad oedd unrhyw wiriadau dyddiol nac wythnosol yn cael eu cynnal a'u cofnodi
- Nid oedd un aelod o'r staff y gwnaethom siarad ag ef yn gwybod sut i ddefnyddio'r diffibriliwr
- Nid oedd rhai aelodau o'r staff y gwnaethom siarad â nhw yn gwybod sut i agor y troli dadebru.

Mae manylion y pryderon am ddiogelwch cleifion a'r gwelliannau yr oedd eu hangen ar unwaith yn [Atodiad A](#).

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Rhaid atgoffa'r staff am eu cyfrifoldebau mewn perthynas â hylendid dwylo effeithiol a rhaid cynnal archwiliadau effeithiol er mwyn tynnu sylw at achosion lle nad yw'r staff yn cydymffurfio
- Rhaid cynnal asesiadau Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid pan fo angen a'u cofnodi'n briodol yng nghofnodion y cleifion er mwyn sicrhau na chaiff y cleifion eu hamddifadu o'u rhyddid mewn ffordd anghyfreithiol
- Rhaid dogfennu anghenion unigol pob claf, yn enwedig o ran nodi pa gymorth sydd ei angen yn ystod prydau bwyd
- Rhaid gwella diogelwch cofnodion y cleifion; gwelsom sawl enghraifft lle roedd cofnodion cleifion wedi cael eu gadael heb oruchwyliaeth.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd sticeri rhybuddio melyn yn cael eu defnyddio i rybuddio'r staff am gleifion ag enwau tebyg i'w gilydd er mwyn osgoi gwallau meddyginiaeth
- Roedd nifer yr achosion o friwiau pwyso a niwed i feinweoedd a chwympiadau yn isel, ac roedd y broses o atal cwympiadau yn cael ei rheoli mewn ffordd effeithiol iawn.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Dywedodd y staff y gwnaethom siarad â nhw fod yr uwch-reolwyr i'w gweld a'u bod yn ymgysylltu â'r staff yn rheolaidd, a nodwyd eu bod yn teimlo y byddent yn gallu rhoi gwybod am bryderon. Roedd y ward yn gweithredu ar lefel aciwtedd uchel ac

roedd angen cymorth manwl ar lawer o'r cleifion. Roedd yr aelodau o'r staff y gwnaethom siarad â nhw yn ystod yr arolygiad yn teimlo ei bod hi'n aml yn heriol treulio digon o amser gyda'r cleifion a gwneud yn siŵr bod gofal yn cael ei roi mewn ffordd ddiogel i'r cleifion hynny. Teimlwyd y gallai llesiant y staff fod yn y fantol pe byddai lefel aciwtedd y cleifion yn parhau'n uchel. Rhaid i'r bwrdd iechyd gynnwys y staff a chyfathrebu â nhw wrth werthuso'r dystiolaeth fel rhan o'r adolygiad staffio nesaf. Rydym wedi argymhell nifer sylweddol o welliannau yn dilyn yr arolygiad sy'n dangos bod gwaith i'w wneud er mwyn gwneud yn siŵr bod yr uwch-reolwyr yn goruchwyllo'r trefniadau ar gyfer rhedeg y ward o ddydd i ddydd yn well.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Dylid rhoi system well ar waith i alluogi'r staff i fonitro cydymffurfiaeth â hyfforddiant
- Dylid ystyried cydymffurfiaeth y staff â hyfforddiant Cynnal Bywyd Canolraddol wrth lunio rhestrau gweithio er mwyn sicrhau bod y staff sy'n gweithio ar bob shift yn meddu ar y sgiliau priodol os bydd argyfwng
- Rhaid i uwch-reolwyr sicrhau y caiff y staff eu hysbysu am unrhyw welliannau a nodir yn sgil archwiliadau, digwyddiadau neu hysbysiadau diogelwch cleifion cenedlaethol.

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Ansawdd Profiad y Claf

Adborth gan Gleifion

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom ddosbarthu holiaduron AGIC i'r cleifion er mwyn cael eu barn ar y gwasanaethau a ddarperir. Cwblhawyd cyfanswm o ddau holiadur. Gwnaethom hefyd siarad â'r cleifion ar y ward pan oedd yn briodol i ni wneud hynny.

Rhoddodd y cleifion adborth cadarnhaol am eu profiadau. Dywedodd y ddau glaf a gwblhaodd holiadur fod y gwasanaeth a gawsant yn dda iawn. Roedd pob un o'r cleifion y gwnaethom siarad â nhw yn canmol y gofal a oedd yn cael ei ddarparu a'r rhyngweithio rhyngddynt a'r staff yn fawr.

Gofynnwyd i'r cleifion yn yr holiaduron sut y gallai'r lleoliad wella'r gwasanaeth y mae'n ei ddarparu. Yr unig sylw a gawsom oedd:

“Mwy o staff yn y bore wrth wneud y gwelyau.”

Cadw'n lach

Diogelu a Gwella Iechyd

Roedd gwybodaeth wedi'i harddangos ym mhob rhan o'r ward yn nodi sut y gallai'r cleifion wella eu hiechyd a'u llesiant ac yn cynnig manylion gwasanaethau a grwpiau cymorth lleol. Dywedodd y cleifion y gwnaethom siarad â nhw wrthym fod y staff hefyd wedi rhoi gwybodaeth iddynt am sut i ofalu amdanynt eu hunain a'u hiechyd.

Roedd y ward yn hyrwyddo amseroedd prydau gwarchodedig, gan sicrhau nad oedd unrhyw beth yn tarfu ar y cleifion wrth iddynt gael brecwast, cinio a swper. Gwelsom y cleifion yn cael eu prydau amser cinio ac roedd y staff yn helpu'r cleifion mewn ffordd dawel ac urddasol heb ruthro, gan roi digon o amser i'r cleifion gnoi a llyncu eu bwyd. Roedd y ddau glaf a gwblhaodd holiadur yn cytuno bod y staff yn eu helpu i fwyta neu yfed pan oedd angen cymorth arnynt.

Gofal ag urddas

Gofal ag urddas

Dywedodd y ddau glaf a gwblhaodd holiadur fod staff yr ysbyty

wedi eu trin ag urddas a pharch. Cadarnhaodd y cleifion y gwnaethom siarad â nhw hefyd fod y staff wedi eu trin yn garedig.

Gwelsom enghreifftiau o ryngweithio da rhwng y staff a'r cleifion, gyda'r staff yn diwallu anghenion y cleifion mewn ffordd gynnil a phroffesiynol. Roedd hyn yn arbennig o amlwg mewn perthynas â'r gofal a oedd yn cael ei roi i gleifion yr oedd angen gofal lliniarol arnynt. Roedd y cleifion yn gallu gwisgo eu dillad eu hunain ac roedd y cleifion a oedd yn gaeth i'r gwely yn lân ac yn cael gofal da, yn ôl pob golwg.

Dywedodd y cleifion wrthym eu bod yn cael cynnig cyfle i olchi neu gael cawod bob dydd. Roedd y ddau glaf a gwblhaodd holiadur yn cytuno bod y staff yn rhoi dewis iddynt o ran pa ddull yr hoffent ei ddefnyddio pan oedd angen iddynt fynd i'r toiled, a'u bod yn rhoi cymorth mewn ffordd sensitif. Gwelsom y staff yn cau'r llenni wrth roi gofal i'r cleifion er mwyn helpu i amddiffyn eu preifatrwydd a'u hurddas.

Roedd yr ystafelloedd ymolchi ar y ward yn rhai cymunedol. Roedd yr ystafelloedd ymolchi yn lân drwy gydol yr arolygiad. Serch hynny, roedd ôl traul ar y dodrefn a'r ffitiadau ac roedd angen eu moderneiddio. Roedd llenni ar gael yn yr ardal olchi gymunedol, ond yn ein barn ni, nid oedd hynny'n amddiffyn preifatrwydd ac urddas y cleifion a oedd yn defnyddio'r cyfleusterau yn llawn. Ceir rhagor o wybodaeth am y gwelliannau sydd eu hangen i amgylchedd y ward yn adran 'Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch' yr adroddiad hwn.

Roedd yn gadarnhaol gweld bod manged dadactifadu diffibrilwyr ar gael er mwyn helpu i gynnig mwy o urddas i gleifion â diffibrilwyr cardiaidd y gellir eu mewnlannu yr oedd angen gofal diwedd oes arnynt.

Cyfathrebu'n effeithiol

Roedd y ddau glaf a gwblhaodd holiadur yn cytuno fod y staff wedi siarad â nhw am eu cyflyrau meddygol ac wedi eu helpu i'w deall. Roedd y cleifion hefyd yn cytuno bod y staff wedi gwrando arnynt.

Roedd yn gadarnhaol nodi bod gofynion iaith y cleifion yn cael eu hasesu adeg eu derbyn. Gwelsom fod rhywfaint o wybodaeth i gleifion ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg. Dywedwyd wrthym mai dim ond nifer bach o'r staff nyrsio a oedd yn gallu siarad Cymraeg. Yn ystod ein cyfnod ar y ward, nid oedd ffordd o wybod yn hawdd a oedd unrhyw rai o'r nyrsys yn siarad Cymraeg. **Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau ei bod hi'n hawdd i'r cleifion wybod pa staff sy'n siarad Cymraeg, er enghraifft drwy wisgo bathodyn 'iaith gwaith'.** Dywedwyd wrthym y byddai gwasanaethau cyfieithu yn cael eu trefnu pe byddai cleifion yn awyddus i siarad Cymraeg ac nad oedd unrhyw staff ar gael a oedd yn siarad Cymraeg.

Gwelsom dystiolaeth o rai mentrau a oedd wedi cael eu cyflwyno er mwyn helpu i ofalu am gleifion sy'n byw gyda dementia. Er enghraifft, roedd clociau mawr wedi cael eu gosod ar y waliau, ac roedd hambyrddau a chwpanau coch yn cael eu defnyddio er mwyn helpu'r staff i wybod pa gleifion yr oedd angen sylw ychwanegol arnynt wrth fwyta ac yfed. Fodd bynnag, nodwyd gennym fod cynlluniau eraill ar gael ond nad oeddent yn cael eu defnyddio. Er enghraifft, er bod gan y ward sticeri pili pala, nid oeddent yn cael eu harddangos er mwyn gwneud yn siŵr bod y staff yn gwybod pa gleifion oedd yn byw gyda dementia. Yn ogystal, er bod ffurflenni 'Dyma fi' ar gael yng nghofnodion y cleifion, nodwyd gennym nad oedd y staff yn eu cwblhau. **Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau ei fod yn defnyddio'r holl fentrau sydd ar gael ar y ward yn llawn er mwyn darparu gofal dementia sy'n cydymffurfio â'r canllawiau a ddisgrifir yn Siarter Ysbytai sy'n Deall Dementia Cymru.**

Gwybodaeth i gleifion

Roedd arwyddion clir ar gyfer Ward Claerwen o'r tu allan i'r ysbyty a'r tu mewn i'r ysbyty. Roedd bwrdd y tu ôl i orsaf y nyrsys a oedd yn dangos enwau'r staff a oedd ar ddyletswydd yn ystod y dydd a thros nos. Fodd bynnag, prin oedd y wybodaeth a oedd wedi'i harddangos i'r cleifion a'r gofalwyr i'w helpu yn ystod eu cyfnod ar y ward. Er enghraifft, ni allem weld unrhyw wybodaeth mewn perthynas ag amseroedd prydau, gwasanaethau iaith, na sut y gallai'r cleifion gwyno neu godi pryder drwy'r broses Gweithio i Wella. Gwnaethom godi hyn â rheolwr y ward a ddywedodd wrthym fod ffolderi newydd wrthi'n cael eu creu a fydd yn cynnwys gwybodaeth ddefnyddiol i'r cleifion a gofalwyr i'w helpu i ddeall eu gofal ac i roi trosolwg o'r ward iddynt. **Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff y rhain eu cynhyrchu mewn modd amserol.**

Gofal amserol

Mynediad Amserol

Roedd y ddau glaf a gwblhaodd holiadur yn cytuno bod cloch alw ar gael iddynt a phan fyddent yn ei defnyddio, y byddai'r staff yn dod atynt. Ni chododd y cleifion y gwnaethom siarad â nhw unrhyw bryderon o ran gorfod aros am gyfnodau hir pan fyddent yn gofyn am help.

Gofal unigol

Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth

Roedd y cleifion yn cael eu hannog i fod yn weithgar ac yn cael cyfarpar i'w helpu i gerdded a symud. Roedd therapyddion galwedigaethol a chynorthwywyr therapi galwedigaethol ar gael i'r ward, a gwelsom yr aelodau hyn o staff yn gweithio'n dda gyda'r cleifion drwy gydol yr arolygiad.

Gwelsom aelodau o'r staff yn treulio amser gyda'r cleifion ac yn eu helpu i fod yn annibynnol. Nodwyd gennym fod un claf ar y ward yn ystod yr arolygiad wedi'i gofrestru fel unigolyn â nam ar ei olwg, ac roedd y staff wedi rhoi trefniadau cadarnhaol ar waith i wneud yn siŵr y gallai'r claf fwyta ei brydau heb gymorth.

Roedd gan rai o'r cleifion ar y ward ffurflen 'na cheisier dadebru cardio-anadlol (DNACPR)' ar waith. Gwelsom dystiolaeth a oedd yn dangos bod trafodaethau wedi'u cynnal a bod penderfyniadau wedi'u gwneud ynghylch y ffurflenni hyn a'u bod wedi'u dogfennu'n briodol.

Roedd yn amlwg bod trafodaethau am ryddhau cleifion yn cael eu cynnal rhwng yr asiantaethau a'r gwasanaethau priodol. Gwelsom dystiolaeth o becynnau gofal a oedd wedi'u trefnu ar gyfer cleifion. Cadarnhaodd rhai o'r cleifion y gwnaethom siarad â nhw hefyd fod pecynnau gofal wedi'u rhoi ar waith. Fodd bynnag, nid oedd dystiolaeth glir o hyn bob amser wedi'i dogfennu yng nghofnodion y cleifion. Yn ogystal, gwelsom nad oedd y ffurflen ryddhau ar system ddigidol Cofnod Gofal Nyrso Cymru (WCNR) wedi cael ei chwblhau ar gyfer claf a gafodd ei ryddhau o'r ysbyty yn ystod yr arolygiad. **Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff penderfyniadau am bob agwedd ar y broses o ryddhau cleifion eu dogfennu'n llawn yng nghofnodion y cleifion ac ar WCNR.**

Hawliau pobl

Dyweddodd y ddau glaf a gwblhaodd holiadur eu bod yn teimlo y gallent gael gafael ar y gofal iechyd priodol ar yr adeg briodol ni waeth a oedd ganddynt unrhyw nodweddion gwarchodedig. Dywedwyd wrthym fod gwasanaethau eirioli ar gael i'r cleifion pan fo'u hangen.

Roedd modd i deulu a ffrindiau drefnu slotiau awr o hyd rhwng 1pm a 6:30pm er mwyn ymweld â'r ward. Nododd rhai o'r cleifion nad oedd hyn bob amser yn gyfleus i'w teulu neu eu ffrindiau oherwydd ymrwymadau gwaith. Fodd bynnag, dywedodd rheolwr y ward wrthym y gellir amrywio'r oriau ymweld os bydd angen ac y byddai'r staff yn gwneud eu gorau i fodloni unrhyw geisiadau lle bynnag y bo'n bosibl.

Gwrando a dysgu o adborth

Roedd nifer o gardiau diolch wedi'u harddangos ym mhob rhan o'r ward gan gleifion blaenorol. Er ei bod hi'n arfer da rhannu adborth cadarnhaol â'r staff, nodwyd gennym nad oedd unrhyw strwythur ar waith i gasglu barn y cleifion na'u teulu a'u gofalwyr. **Rhaid i'r bwrdd iechyd roi proses ffurfiol reolaidd ar waith ar gyfer casglu adborth gan y cleifion a'u teuluoedd a'u gofalwyr er mwyn helpu i nodi unrhyw welliannau sydd eu hangen a galluogi'r ysbyty i ddangos ei fod yn gwrando ar adborth gan y cleifion ac yn dysgu ohono.**

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Gofal Diogel

Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

Gwelsom fod y fynedfa i'r ward wedi'i chloi drwy gydol yr arolygiad. Fodd bynnag, roedd yn rhaid i ymwelwyr â'r ward guro ar y drws gan nad oedd seinydd na chloch alw ar gyfer gorsaf y nyrsys. O ganlyniad, roedd rhai ymwelwyr yn gorfod aros y tu allan hyd nes y gallai aelod o'r staff agor y drws. Hefyd, dywedodd y cleifion a oedd yn agos at y drws wrthym y gall y curo rheolaidd darfu arnynt. **Rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu trefniadau mynediad y ward er mwyn gwneud yn siŵr nad ydynt yn tarfu ar y cleifion.**

Ar y cyfan, roedd amgylchedd y ward yn hygyrch i bobl ag anawsterau symudedd. Nodwyd gennym nad oedd llawer o le yn yr ystafelloedd ymolchi cymunedol wrth ymyl y basnau ymolchi, ac mai dim ond un gawod y gellid cerdded i mewn iddi oedd ar gael.

Roedd y coridorau yn lân ar y cyfan, ac nid oedd unrhyw eitemau diangen. Roedd ôl traul amlwg ar amgylchedd y ward ac roedd angen rhoi sylw iddi. Cawsom wybod fod rhywfaint o waith ystadau yn mynd rhagddo, gan gynnwys gosod biniau plastig yn lle biniau metel a gosod byrddau gwybodaeth y gellir eu cloi ar waliau'r coridorau. Dywedwyd wrthym hefyd y byddai'r ward yn cael ei hadnewyddu cyn bo hir, ac mae hynny i'w groesawu fel datblygiad cadarnhaol tuag at foderneiddio'r amgylchedd i'r cleifion. Fodd bynnag, gwnaethom nodi nifer o faterion mewn perthynas â'r amgylchedd yr oedd angen ymdrin â nhw yn y cyfamser, gan gynnwys:

- Roedd paent wedi plicio oddi ar rannau o waliau'r coridorau, yn enwedig y tu allan i faeau 2 i 7
- Roedd yr ystafelloedd ymolchi cymunedol a'r dodrefn ynddynt yn dangos ôl traul ac roedd angen eu moderneiddio, gan gynnwys cynnig opsiynau mwy hygyrch i'r cleifion gael cawod a chynnig mwy o breifatrwydd
- Roedd tâp yn cael ei ddefnyddio ar y llawr i orchuddio bylchau rhwng paneli'r llawr a oedd yn peri perygl baglu i gleifion agored i niwed
- Roedd y to yn yr ystafell newid i staff benywaidd yn amlwg yn gollwng ac roedd angen ei atgyweirio
- Nid oedd unrhyw gyfleusterau newid ar gael i staff gwrywaidd.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod yr amgylchedd yn parhau'n addas i'r cleifion hyd nes y caiff y gwaith adnewyddu ei gwblhau, a fyddai'n cynnwys ymdrin â'r materion a restrir uchod, ond heb fod yn gyfyngedig i hynny.

Wrth i ni gael ein tywys o amgylch y ward, nodwyd gennym nad oedd rhai ardaloedd yn cael eu cadw'n daclus. Gwnaethom godi'r mater hwn â'r staff ac roedd yn gadarnhaol nodi bod yr ardaloedd hyn wedi cael eu tacluso erbyn diwedd ein harolygiad.

Er i ni gael gwybod bod y staff yn cynnal gwiriadau gweledol rheolaidd o'r amgylchedd, nid oedd unrhyw dystiolaeth o hyn. Rhoddwyd ffolder iechyd a diogelwch i ni, ond roedd y wybodaeth berthnasol naill ai ar goll, neu nid oedd yn gyfredol. Er enghraifft:

- Dim ond un asesiad risg ar gyfer Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH) oedd wedi'i gynnwys yn y ffolder
- Nid fersiwn ddiweddaraf y polisi iechyd a diogelwch oedd yn y ffolder
- Roedd y dyddiad ar gyfer adolygu'r asesiadau risg wedi mynd heibio ers o leiaf ddwy flynedd.

Rhoddodd uwch-aelodau o'r staff sicrwydd i ni fod asesiad risg iechyd a diogelwch newydd ar fin cael ei gynnal ac y byddai archwiliadau wedi'u dogfennu o'r ward yn cael eu hailgyflwyno maes o law er mwyn monitro diogelwch yr amgylchedd. **Rhaid i'r bwrdd iechyd ddarparu tystiolaeth o gynnydd a'r camau gweithredu a gymerwyd ers yr arolygiad mewn perthynas â'r materion hyn.** Nodwyd gennym fod dogfennaeth briodol ar gael ym mhob rhan o'r ward mewn perthynas â diogelwch tân.

Atal briwiau pwyso a niwed i feinweoedd

Gwelsom dystiolaeth fod y cleifion yn cael eu hasesu er mwyn penderfynu a oedd risg y byddent yn datblygu briwiau pwyso a niwed i feinweoedd adeg eu derbyn. Roedd y cleifion hefyd yn cael asesiadau croen priodol. Roedd trefniadau goruchwyllo da ar waith gan yr uwch-reolwyr o ran achosion o friwiau pwyso a niwed i feinweoedd drwy gyfarfodydd craffu misol a oedd yn cael eu cynnal i adolygu digwyddiadau ac i nodi unrhyw wersi a ddysgwyd. Fodd bynnag, wrth i ni edrych ar gofnodion y cleifion, nodwyd y materion canlynol:

- Gwelsom ddau achos lle nad oedd cynlluniau gofal wedi cael eu datblygu i gleifion fel yr oedd yn ofynnol gan sgôr eu hasesiad croen
- Ni allem weld unrhyw dystiolaeth yng nghofnodion tri chlaf allan o bump fod y cleifion hynny wedi cael eu hail-leoli'n rheolaidd drwy gydol y dydd a'r nos
- Yng nghofnodion y pum claf, gwelsom achosion lle nad oedd y cleifion wedi cael eu monitro mor aml ag oedd yn ofynnol gan eu cynlluniau gofal. Er enghraifft, roedd angen monitro un claf bob wyth awr, ond gwelsom nad oedd wedi cael ei fonitro am 11 awr a 12 awr ar ddau achlysur gwahanol o fewn cyfnod o dridiau.

Er bod nifer yr achosion o friwiau pwyso a niwed i feinweoedd a gafwyd ar y ward i'w weld yn isel, **rhaid i'r bwrdd iechyd ymdrin â'r materion a nodwyd uchod er mwyn helpu i atal achosion o friwiau pwyso a niwed i feinweoedd yn y dyfodol.**

Atal cwympiadau

Cawsom sicrwydd fod prosesau addas ar waith er mwyn helpu i atal cleifion rhag cwmpo ym mhob rhan o'r ward. Roedd cyfarpar a matiau atal cwympiadau yn cael eu defnyddio. Roedd nifer yr achosion o gleifion yn cwmpo yn gymharol isel, a oedd yn gadarnhaol o ystyried y ffaith bod cynllun y ward yn ei gwneud hi'n anodd gallu monitro symudiadau'r cleifion yn barhaus. Unwaith eto, roedd trefniadau goruchwyllo da ar waith gan yr uwch-reolwyr mewn perthynas â digwyddiadau, ac roedd cyfarfodydd craffu yn cael eu cynnal bob pythefnos i adolygu digwyddiadau ac i nodi unrhyw wersi a ddysgwyd. Roedd angen gwella rhai meysydd:

- Nid oedd cynlluniau gofal ar gyfer cwympiadau wedi cael eu datblygu ar gyfer dau o'r pedwar claf yr oedd eu hangen arnynt
- Nid oedd un claf wedi cael ei asesiad risg o gwmpo mewn modd amserol; cafodd y claf ei asesu ar y diwrnod ar ôl iddo gael ei dderbyn
- Nid oedd y polisi lleihau cwympiadau wedi cael ei adolygu ers 2019 ac roedd angen ei ddiweddarau.

Rhaid i'r bwrdd iechyd roi'r gwelliannau a restrir uchod ar waith. Fodd bynnag, yn gyffredinol, roedd prosesau atal cwympiadau yn cael eu rheoli'n dda.

Atal a rheoli heintiau

Yn ystod ein harolygiad, roedd lloriau ac arwynebeddau'r ward yn ymddangos yn lân. Gwelsom amserlenni glanhau wedi'u harddangos ar y wal, ac roedd yr amserlenni hynny yn cael eu gweithredu'n briodol. Roedd y ddau glaf a gwblhaodd holiadur, a phob un o'r cleifion y gwnaethom siarad â nhw, o'r farn bod amgylchedd y ward wedi cael ei gadw'n lân drwy gydol eu cyfnod yn yr ysbyty.

Gwelsom fod Cyfarpar Diogelu Personol ar gael a bod eitemau o stoc dros ben yn cael eu storio'n briodol. Fodd bynnag, yn ystod yr arolygiad, gwelsom PPE glân (e.e. masgiau wyneb) i'r staff ac ymwelwyr wedi'u gosod ar ben bin gwastraff clinigol wrth fynedfa'r ward. Gwnaethom godi hyn ag uwch-aelodau o'r staff a symudodd y PPE ar unwaith, gan greu gorsaf newydd ar gyfer PPE glân.

Gwelsom fod cyfleusterau golchi dwylo a pheiriannau hylif diheintio dwylo ar gael ym mhob rhan o'r ward. Roedd archwiliadau hylendid dwylo yn cael eu cynnal yn rheolaidd, a llwyddwyd i gyflawni lefel gydymffurfiaeth o 100% yn archwiliad hylendid dwylo mis Rhagfyr 2022. Fodd bynnag, yn ystod ein harolygiad, gwelsom lefelau cydymffurfiaeth isel iawn ymhlith y staff â'r arferion gorau o ran technegau hylendid dwylo. Er enghraifft, gwelsom feddyg yn ysgwyd llaw â chlaf ac wedyn yn

symud ymlaen at y claf nesaf heb ddiheintio ei ddwylo rhyngddynt. Gwelsom aelodau o'r staff hefyd yn symud o fae un claf i fae claf arall heb olchi eu dwylo ar ôl dod i gysylltiad â'r claf. **Rhaid i'r bwrdd iechyd atgoffa'r staff am eu cyfrifoldebau mewn perthynas â hylendid dwylo effeithiol a sicrhau bod archwiliadau yn effeithiol wrth dynnu sylw at achosion lle nad yw'r staff yn cydymffurfio.**

Gwnaethom edrych ar gofnodion cyfarfodydd staff blaenorol a gwelsom fod y staff wedi cael eu hatgoffa sawl gwaith y dylid cydymffurfio â'r polisi o ran gwisg. Fodd bynnag, er gwaethaf y ffaith eu bod wedi cael eu hatgoffa, gwelsom enghreifftiau o'r staff yn mynd yn groes i'r polisi o ran gwisg drwy gydol yr arolygiad. Er enghraifft, nid oedd rhai aelodau o'r staff yn noeth o dan y penelin, ac roedd rhai aelodau o'r staff yn gwisgo dillad dros eu gwisg. **Rhaid i'r bwrdd iechyd weithredu i sicrhau bod y staff yn cydymffurfio â'r polisi o ran gwisg bob amser.**

Yn ôl pob golwg, roedd y cyfarpar yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda, ac eithrio un glustog pwysedd aer a oedd wedi rhwygo. Gwnaethom godi hyn â'r staff a drefnodd glustog newydd ar unwaith. Er bod y cyfarpar yn lân yr olwg, gwelsom nad oedd sticeri yn cael eu defnyddio i hysbysu'r staff fod cyfarpar meddygol y gellir ei aildefnyddio yn lân ac yn ddiogel i'w ddefnyddio. Ni wnaethom godi hyn â'r staff ar y pryd, ond nodwyd gennym fod y sticeri wedi dechrau cael eu defnyddio erbyn ail ddiwrnod yr arolygiad.

Gwnaethom siarad â'r staff cadw tŷ a oedd yn ymwybodol o'u rolau a'u cyfrifoldebau mewn perthynas â mesurau atal a rheoli heintiau effeithiol. Fodd bynnag, nodwyd gennym ar un achlysur nad oedd y cwpwrdd glanhau wedi'i gloi. **Rhaid sicrhau bod y cwpwrdd glanhau wedi'i gloi bob amser pan nad yw'n cael ei ddefnyddio er mwyn atal mynediad heb awdurdod i ddeunyddiau glanhau peryglus.**

Maeth a hydradu

Ar y cyfan, cawsom sicrwydd fod y safonau sydd wedi'u nodi yn llwybr Gofal Maeth Ysbytai Cymru Gyfan yn cael eu cyrraedd. Yn ôl cofnodion y cleifion a welsom, roedd asesiadau risg maeth wedi'u cwblhau o fewn 24 awr o dderbyn y cleifion. Roedd system ar waith i nodi'r cleifion yr oedd angen cymorth arnynt i fwyta. Roedd opsiynau meddalach ar gael i'r cleifion a byddai bwydydd â gwedd amgen yn cael eu cynnig pe byddai angen. Lle bo angen, gwelsom fod cymeriant bwyd a hylif y cleifion yn cael ei fonitro a'i gofnodi.

Fodd bynnag, yn ôl ein hadolygiad o gofnodion y cleifion, roedd y cynlluniau gofal mewn perthynas ag anghenion maeth a hydradu'r cleifion yn gyffredinol eu naw. **Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff anghenion unigol pob claf eu dogfennu, yn enwedig o ran nodi pa gymorth sydd ei angen.**

Nodwyd gennym fod dŵr ar gael i'r cleifion drwy gydol yr arolygiad. Dywedodd y cleifion y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn fodlon ar ansawdd ac amrywiaeth y bwyd a oedd ar gael. Fodd bynnag, cawsom wybod weithiau fod yn rhaid i'r cleifion aros tan fod y staff wedi mynd â bwyd i bob claf cyn y gallant ddychwelyd i helpu'r cleifion y gall fod angen help arnynt. **Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod digon o staff ar gael i helpu'r cleifion i fwyta unwaith y bydd y bwyd wedi'i weini er mwyn gwneud yn siŵr bod y bwyd yn boeth ac yn addas i'w fwyta o hyd.**

Rheoli meddyginiaethau

Yn gyffredinol, cawsom sicrwydd fod meddyginiaethau yn cael eu rheoli a'u storio mewn ffordd ddiogel ac effeithiol. Gwelsom fod y cleifion yn gwisgo bandiau adnabod a bod y staff yn cadarnhau enwau a dyddiad geni pob claf cyn rhoi meddyginiaeth. Gwelsom arferion da wrth ddefnyddio sticeri rhybuddio melyn i rybuddio'r staff am gleifion ag enwau tebyg i'w gilydd.

Roedd meddyginiaethau yn cael eu storio'n ddiogel yn ystafell y clinig a'r oergell. Roedd cypyrddau meddyginiaeth y gellir eu cloi hefyd ar gael ar y wal wrth ymyl pob gwely er mwyn gallu cael gafael ar feddyginiaethau cleifion yn gyflym.

Roedd tymheredd oergelloedd ac ystafelloedd yn cael eu gwirio. Fodd bynnag, nodwyd rhai bylchau gennym wrth gofnodi tymheredd ystafelloedd. **Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff tymheredd yr ystafell ei gofnodi'n gyson yn ystafell y clinig.** Nodwyd gennym hefyd nad oedd y taflenni gwirio yn cynnwys unrhyw ganllawiau o ran yr amrediad tymheredd derbyniol, na beth i'w wneud pe byddai'r tymheredd a gofnodwyd y tu allan i'r amrediad hwnnw. **Rydym yn argymhell y dylai'r bwrdd iechyd ychwanegu'r canllawiau hyn at y taflenni gwirio er mwyn helpu i sicrhau y gall y staff nodi unrhyw dymhereddau sydd y tu allan i'r amrediad a argymhellir ac y gallant uwchgyfeirio'r mater yn briodol.**

Roedd technegydd fferyllol yn ymweld â'r ward deirgwaith yr wythnos ac yn rhoi cymorth da i'r staff ar y ward. Roedd hyn yn cynnwys cynnal gwiriadau stoc rheolaidd a threfnu meddyginiaeth i'r cleifion fynd â hi adref ar ôl cael eu rhyddhau. Gwelsom fod cyffuriau a reolir yn cael eu cofnodi'n briodol a bod y staff yn llofnodi'n briodol ar eu cyfer.

Gwelsom sampl o Siartiau Cyffuriau Cymru Gyfan (y siart) a oedd wedi'u cwblhau'n gywir, ar y cyfan. Fodd bynnag, gwelsom rai enghreifftiau lle roedd cyfarwyddiadau anghywir wedi'u cofnodi mewn perthynas â'r dos a ragnodwyd a allai fod wedi arwain at ddryswch neu wall meddyginiaeth. Gwnaethom ofyn i'r staff ddiwygio'r ddogfennaeth yn ystod yr arolygiad er mwyn rhoi gwell eglurder i'r

staff. Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y siartiau wedi'u hysgrifennu'n glir a'u bod yn cynnwys y dos cywir a ragnodwyd i'r staff ei roi.

Gwnaethom edrych ar y cyflenwad o gyfarpar meddygol ar y ward, gan nodi mai dim ond dwy nodwydd finio fwy diogel oedd ar gael i'r staff eu defnyddio. Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod mwy o nodwyddau â dyfeisiau diogelwch arnynt ar gael er mwyn amddiffyn y staff yn well rhag anafiadau o nodwyddau a'r risg y byddant yn dod i gysylltiad â feirysau a gludir yn y gwaed.

Diogelu plant a diogelu oedolion sy'n wynebu risg

Dywedodd pob un o'r cleifion y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn teimlo'n ddiogel ar y ward. Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn gallu disgrifio'r materion diogelu perthnasol a sut i godi pryderon.

Roedd nifer o gleifion ar y ward yr oedd angen gofal manwl cyson arnynt ac yr oedd angen cynnal sesiynau arsylwi un-i-un ar eu cyfer. Gwelsom dystiolaeth fod asesiadau galluedd meddyliol yn cael eu cynnal adeg derbyn. Fodd bynnag, gwelsom un enghraifft lle roedd meddyg wedi penderfynu nad oedd gan glaf alluedd meddyliol, ond lle nad oedd unrhyw dystiolaeth yng nghofnodion y claf fod asesiad wedi'i gynnal mewn perthynas â'r trefniadau diogelu wrth amddifadu o ryddid (DoLS). Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff asesiadau DoLS eu cynnal pan fo angen ac y cânt eu cofnodi'n briodol yng nghofnodion y cleifion er mwyn sicrhau na chaiff y cleifion eu hamddifadu o'u rhyddid mewn ffordd anghyfreithiol.

Rheoli gwaed

Ysbyty gymunedol yw Ysbyty Coffa Llandrindod ac nid yw'r staff yn rhoi cyfansoddion gwaed i'r cleifion. Dywedwyd wrthym y byddai unrhyw gleifion yr oedd angen trallwysiad gwaed arnynt yn cael eu trosglwyddo i ysbyty aciwt i gael y driniaeth.

Dyfeisiau, cyfarpar a systemau diagnostig meddygol

Roedd digon o gyfarpar priodol ar gael ar y ward i ddiwallu anghenion y cleifion. Roedd hyn yn cynnwys teclynnau codi, fframiau cerdded a chyfarpar monitro. Roedd y staff yn gallu disgrifio'r trefniadau ar gyfer rhoi gwybod am gyfarpar diffygiol. Gwelsom fod y rhan fwyaf o'r eitemau cyfarpar wedi cael eu gwasanaethu neu eu gwirio o fewn y 12 mis diwethaf. Fodd bynnag, ni welsom labeli gwasanaethu ar y gadair pwyso nac ar y glorian trosglwyddo cleifion. Gwelsom enghreifftiau hefyd o gyfarpar gwaed meddygol yr oedd y dyddiad arnynt wedi mynd heibio (potel waed, nodwyddau a chanwlâu) yr oedd angen rhai newydd yn

eu lle. Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff y cloriannau, a chyfarpar tebyg arall ar y ward, eu graddnodi'n rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn rhoi mesuriadau cywir. Yn ogystal, rhaid rhoi system ar waith i fonitro'r dyddiadau ar gyfer gwasanaethu neu adnewyddu cyfarpar.

Gofal effeithiol

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn gwybod sut i gael gafael ar y polisiau a'r gweithdrefnau clinigol perthnasol er mwyn helpu i ddarparu gofal diogel ac effeithiol i'r cleifion.

Trafododd y staff y gweithdrefnau a oedd ar waith er mwyn helpu i nodi achosion o sepsis a'u rheoli. Roedd adnodd sgrinio sepsis yn cael ei ddefnyddio ar gyfer pob claf. Oherwydd nifer y cleifion ar y ward y mae angen gofal lliniarol arnynt, mae'n bosibl yr hoffai'r bwrdd iechyd ystyried a fyddai'n fwy priodol defnyddio adnodd sgrinio sepsis wedi'i gynllunio'n benodol ar gyfer cleifion gofal lliniarol mewn rhai achosion. Os ceir sgôr o dri neu fwy fel rhan o'r broses Sgoriau Rhybudd Cynnar Cenedlaethol (NEWS), dywedwyd wrthym y byddai angen uwchgyfeirio'r achos ar unwaith am ddiagnosis posibl o sepsis. Fodd bynnag, gwelsom un enghraifft lle roedd y meddyg wedi nodi sgôr NEWS o bedwar, ond nid oedd yn glir o'r ddogfennaeth pa weithdrefnau uwchgyfeirio, er enghraifft arsylwadau amlach, a bennwyd. **Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff penderfyniadau am weithdrefnau uwchgyfeirio ar gyfer achosion lle yr amheuir sepsis eu dogfennu'n glir i'r staff eu dilyn.**

Gwelsom fod cyfarpar dadebru ar gael a'i fod wedi'i osod mewn man cyfleus yn rhan ganol y ward. Fodd bynnag, drwy gydol yr arolygiad, roedd gennym bryderon am y trefniadau a oedd ar waith i reoli argyfyngau yn ymwneud â chleifion yn ddiogel:

- Ni allem gael sicrwydd o ran p'un a oedd yr eitemau cyfarpar brys yn gyfredol gan nad oedd unrhyw wiriadau dyddiol nac wythnosol yn cael eu cynnal a'u cofnodi
- Nid oedd un aelod o'r staff y gwnaethom siarad ag ef yn gwybod sut i ddefnyddio'r diffibriliwr
- Nid oedd rhai aelodau o'r staff y gwnaethom siarad â nhw yn gwybod sut i agor y troli dadebru.

Gwnaethom godi'r materion hyn â'r staff ac roedd yn gadarnhaol nodi eu bod wedi gweithredu ar unwaith i ymdrin â'n pryderon. Ceir rhagor o wybodaeth am y camau gweithredu a gymerwyd gan y bwrdd iechyd yn [Atodiad A](#) o'r adroddiad hwn.

Gwelsom fod bwrdd Cipolwg ar Statws Cleifion (PSAG) yn ystafell y staff a oedd yn helpu i amddiffyn preifatrwydd a chyfrinachedd gwybodaeth am y cleifion. Roedd y wybodaeth ar y bwrdd hefyd yn cael ei chynnwys fel rhan o'r nodiadau trosglwyddo staff dyddiol. Fodd bynnag, nodwyd anghysondeb gennym rhwng y wybodaeth ar y bwrdd a'r wybodaeth yn y nodiadau trosglwyddo, a chadarnhaodd y staff nad oedd y wybodaeth ar y bwrdd yn gyfredol. Cawsom wybod fod cynlluniau ar waith i ddefnyddio bwrdd Cipolwg ar Statws Cleifion electronig, ond fod problemau â'r rhyngrwyd wedi gohirio'r broses. Yn y cyfamser, roedd yr anghysondeb rhwng y bwrdd a'r nodiadau trosglwyddo yn peri risg bosibl y byddai'r staff yn gwneud penderfyniadau gan ddefnyddio gwybodaeth anghywir. **Rhaid i'r bwrdd iechyd wella'r broses o gofnodi ac arddangos gwybodaeth gyfredol am y cleifion i'r staff er mwyn i bob disgyblaeth berthnasol allu deall y wybodaeth honno a'i defnyddio'n effeithiol.**

Gwella ansawdd, ymchwil ac arloesi

Wrth gael ein tywys o amgylch y ward, gwelsom fod bwrdd 'Sut rydym yn perfformio' wedi'i arddangos yn y coridor a oedd yn darparu metrigau perfformiad diogelwch ar gyfer y ward, fel nifer y cwympiadau a'r briwiau pwyso bob mis. Fodd bynnag, nodwyd gennym nad oedd y bwrdd yn gyfredol, ac mai'r data ar gyfer mis Medi 2022 oedd i'w gweld. **Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y bwrdd 'Sut rydym yn perfformio' yn gyfredol er mwyn darparu gwybodaeth amser real a chodi ymwybyddiaeth o unrhyw welliannau sydd eu hangen.**

Cadw cofnodion

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom edrych ar gofnodion pump claf. Gwelsom dystiolaeth fod dogfennaeth dda a chlir yn cael ei chofnodi o weithgareddau'r cleifion o ddydd i ddydd. Roedd gofal cleifion yn cael ei gynllunio mewn ffordd a oedd yn hybu annibyniaeth. Roedd y ddogfennaeth nyrsio yn cael ei chofnodi drwy gymysgedd o ddulliau papur ac electronig. Gwelsom fod y cofnodion nyrsio digidol yn cael eu defnyddio'n effeithiol. Roedd angen rhai gwelliannau o ran y trefniadau ar gyfer cadw'r cofnodion nyrsio papur:

- Gwelsom nad oedd y cynlluniau gofal bob amser yn cael eu cwblhau'n llawn yn ystod asesiad cychwynnol y claf ac nad oeddent bob amser yn cael eu diweddarau bob wythnos ar ôl hynny
- Nid oedd tri o'r pum cynllun gofal wedi'u teilwra at anghenion penodol y claf
- Gwelsom un enghraifft lle nad oedd asesiad risg maeth wedi cael ei gynnal pan oedd ei angen, a dwy enghraifft lle nad oedd asesiadau risg poen wedi cael eu cynnal pan oedd eu hangen
- Gwelsom yng nghofnodion y pum claf nad oedd bwndeli gofal SSkin bob amser yn cael eu cwblhau pan oedd eu hangen. Er enghraifft, roedd angen gwiriadau bob 4 awr ar un claf, ond gwelsom sawl achlysur lle roedd o leiaf 5 awr rhwng bob gwiriad.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff yr holl ddogfennaeth nyrsio ei chadw'n unol â'r canllawiau safonau clinigol er mwyn sicrhau bod y cleifion yn cael gofal diogel ac effeithiol.

Roedd cofnodion y cleifion yn cael eu storio mewn dau droli mewn ystafell y tu ôl i orsaf y nyrsys. Fodd bynnag, nid oedd yr un o'r troliau wedi'u diogelu ddigon. Roedd un troli heb ei gloi, ac er bod y troli arall dan glo, roedd y cod ar gyfer y bysellbad electronig i'w weld wrth ymyl y bysellbad. Gwelsom y meddyg yn gadael y troliau yn y prif goridor wrth ymgymryd â rowndiau'r ward. Felly, gadawyd cofnodion y cleifion heb oruchwyliaeth mewn man lle y byddai wedi bod yn hawdd cael gafael arnynt sawl gwaith. Yn ogystal, gwelsom un achlysur lle cafodd y daflen drosglwyddo a oedd yn cynnwys gwybodaeth gyfrinachol am y cleifion ei gadael heb oruchwyliaeth ar ben un o'r troliau. Gwnaethom godi hyn â'r uwch-reolwyr a roddodd sicrwydd i ni y byddent yn atgoffa'r meddyg o'i gyfrifoldeb i amddiffyn cyfrinachedd a phreifatrwydd y cleifion. **Rhaid i'r bwrdd iechyd roi sicrwydd pellach ar y prosesau a roddwyd ar waith ers yr arolygiad i wella diogelwch cofnodion y cleifion yn yr ystafell y tu ôl i orsaf y nyrsys ac yn ystod rowndiau'r ward.**

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Gwnaethom ofyn i staff yr ysbyty gwblhau holiadur AGIC ar-lein er mwyn cael gwybod am yr amodau gwaith a chael eu barn ar safon y gofal. Yn anffodus, ni chawsom ddigon o ymatebion i'w cynnwys yn yr adroddiad hwn. Fodd bynnag, drwy gydol yr arolygiad, gwnaethom siarad â sawl aelod o'r staff a oedd yn gweithio mewn amrywiaeth o rolau a graddau, a chaiff eu safbwyntiau eu cynnwys lle y bo'n berthnasol.

Llywodraethu, Arweinyddiaeth ac Atebolrwydd

Dywedodd y staff y gwnaethom siarad â nhw fod yr uwch-reolwyr i'w gweld a'u bod yn ymgysylltu â'r staff yn rheolaidd, a nodwyd eu bod yn teimlo y byddent yn gallu rhoi gwybod am bryderon. Dywedodd y staff wrthym hefyd eu bod wedi gallu cael sesiynau goruchwyllo clinigol a'u bod yn cael adolygiadau arfarnu a datblygu perfformiad (PADR) blynyddol. Fodd bynnag, nodwyd gennym mai dim ond 58% o'r staff a oedd wedi cael eu hadolygiad arfarnu a datblygu perfformiad erbyn mis Rhagfyr 2022. **Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cael ei adolygiad arfarnu a datblygu perfformiad blynyddol mewn modd amserol.**

Gwelsom lefel gydymffurfiaeth gyffredinol â hyfforddiant gorfodol o 72% ymhlith y staff. Dywedodd rheolwr y ward wrthym am y cynlluniau sydd ar waith i wella'r gyfradd hon yn y dyfodol agos. Roedd y system Cofnodion Staff Electronig (ESR) yn cael ei defnyddio i bennu lefel gydymffurfiaeth gyffredinol y staff. Fodd bynnag, nid oedd yn ymddangos ei bod hi'n hawdd i uwch-aelodau o'r staff nodi cydymffurfiaeth pob aelod unigol o'r staff, na lefelau cydymffurfiaeth yn ôl y cwrs hyfforddi. Er enghraifft, cymerodd gryn amser i uwch-aelodau o'r staff ganfod pa aelodau o'r staff oedd wedi cael hyfforddiant Cynnal Bywyd Sylfaenol a Chanolraddol. **Rhaid i'r bwrdd iechyd roi system well ar waith ar gyfer monitro cydymffurfiaeth â hyfforddiant, er mwyn gallu nodi'n gyflymach pa aelodau o'r staff sydd wedi cael yr hyfforddiant cyfredol, a pha aelodau y mae angen iddynt gwblhau hyfforddiant.**

Wrth edrych ar y lefelau cydymffurfiaeth ar gyfer hyfforddiant Cynnal Bywyd Sylfaenol a Chanolraddol, roedd yn amlwg nad oedd rhai aelodau o'r staff wedi cael yr hyfforddiant diweddaraf. Gwnaethom godi hyn â rheolwr y ward a drefnodd ar unwaith i'r aelodau hynny o staff fynychu cyrsiau yn y dyfodol. **Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff cydymffurfiaeth y staff â hyfforddiant Cynnal Bywyd Canolraddol ei hystyried wrth lunio rhestrau gweithio er mwyn sicrhau bod y staff sy'n gweithio ar bob shift yn meddu ar y sgiliau priodol os bydd argyfwng.**

Gwelsom fod amrywiaeth o archwiliadau gwella ansawdd yn cael eu cynnal i fonitro cydymffurfiaeth â'r canllawiau arferion gorau. Roedd cyfarfodydd craffu

rheolaidd hefyd yn cael eu cynnal i adolygu a thrafod digwyddiadau diweddar. Fodd bynnag, ni allem ddod o hyd i dystiolaeth i ddangos bod y camau gweithredu yn deillio o archwiliadau neu adolygiadau o ddigwyddiadau yn cael eu rhannu â'r staff. Yn ogystal, dywedodd rhai o'r aelodau o staff y gwnaethom siarad â nhw wrthym nad oeddent yn ymwybodol o unrhyw hysbysiadau diogelwch cleifion a oedd wedi cael eu rhannu â nhw. **Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff y staff eu hysbysu am unrhyw welliannau a nodir yn sgil archwiliadau, digwyddiadau neu hysbysiadau diogelwch cleifion cenedlaethol.**

Y Gweithlu

Gwnaethom edrych ar restrau gweithio'r staff, a nodwyd bod y niferoedd staff y cytunwyd arnynt ar gyfer y ward yn cael eu bodloni. Dywedwyd wrthym fod 9.85 swydd wag ar gyfer nyrsys cofrestredig cyfwerth ag amser cyflawn ar hyn o bryd, ac roedd yn amlwg o'n trafodaethau â'r staff fod prinder staff ar y ward yn aml. Er bod staff banc neu staff asiantaeth fel arfer yn cael eu defnyddio pan fydd prinder staff, roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw o'r farn fod hyn yn heriol iddynt. Er enghraifft:

- Gwnaethom ofyn i'r staff a oedd digon o amser ganddynt i ddarparu gofal yn ddiogel a chafwyd atebion cymysg. Roedd y ward ar y pryd yn gweithredu ar lefel aciwtedd uchel ac roedd angen cymorth manwl ar lawer o'r cleifion. Roedd y staff yn teimlo ei bod hi'n aml yn heriol treulio digon o amser gyda'r cleifion a gwneud yn siŵr bod gofal yn cael ei roi mewn ffordd ddiogel i'r cleifion hynny
- Cododd un aelod o'r staff bryderon nad yw weithiau wedi gallu cynnal rowndiau bwriadol mor aml ag sy'n ofynnol oherwydd prinder staff
- Dywedodd mwy nag un aelod o'r staff wrthym nad oedd y cyflenwad staff o ddau weithiwr cymorth gofal iechyd dros nos yn ddigon o ystyried anghenion y cleifion. Adleisiwyd hyn yng nghofnodion cyfarfodydd staff blaenorol, lle nodwyd gennym fod y staff wedi sôn fod morâl yn isel, a phryderon gan y staff nad oeddent yn gallu darparu gofal i'r cleifion, yn enwedig yn ystod y nos.

At hynny, wrth edrych ar y ddogfennaeth a gyflwynwyd i ni yn ystod yr arolygiad, gwelsom ddau achos lle roedd prinder staff wedi cael effaith bosibl ar ofal cleifion. Yn yr achos cyntaf, roedd angen gofal manwl ar glaf ond ni allai gael y gofal hwnnw gan mai dim ond un cynorthwydd gofal iechyd a oedd ar gael oherwydd prinder staff. Yn yr ail achos, gwelsom enghraifft lle mai dim ond un nyrs gofrestredig oedd ar ddyletswydd yn ystod un shift, yn lle'r ddwy nyrs gofrestredig sy'n ofynnol.

Dywedwyd wrthym fod yr adolygiad staffio diwethaf ar gyfer y ward wedi cael ei gynnal ym mis Medi 2022, ac y byddai adolygiad arall yn cael ei gynnal maes o law.

Yr argraff a gawsom oedd fod y staff wedi blino ac y byddai llesiant y staff yn y fantol pe byddai'r sefyllfa bresennol yn parhau. **Rhaid i'r bwrdd iechyd gynnwys y staff a chyfathrebu â nhw wrth werthuso'r dystiolaeth fel rhan o'r adolygiad staffio nesaf.**

4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgysfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar [wefan](#) AGIC.

Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Wrth gael ein tywys o amgylch y ward, ac o'r trafodaethau a gawsom â'r staff, gwnaethom nodi'r materion canlynol mewn perthynas â'r trefniadau dadebru: Nid oedd y staff yn gwybod a oedd yr eitemau brys yn gyfredol gan fod y troli ar agor, ond nid oedd unrhyw wiriadau dyddiol wedi'u	O ganlyniad, ni allem gael sicrwydd bod trefniadau priodol ar waith i reoli argyfyngau yn ymwneud â chleifion yn ddiogel.	Gwnaethom drafod ein pryderon ar unwaith â'r uwch-reolwyr ar y ward.	Cymerodd yr uwch-reolwyr y camau canlynol ar unwaith yn ystod yr arolygiad: - Gwiriwyd y troli dadebru a chafodd ei selio'n briodol er mwyn i'r staff wybod bod yr holl eitemau yn ddiogel i'w defnyddio - Dangoswyd i bob aelod o'r staff a oedd ar y shiftt honno sut i agor y troli dadebru a gwnaed trefniadau i ddangos i'r staff ar shifttau dilynol - Lluniwyd taflen wirio i'r staff gynnal gwiriadau wedi'u dogfennu o'r cyfarpar a'r meddyginiaethau brys yn y dyfodol.

dogfennu yn cael eu cofnodi • Dywedodd un aelod o'r staff wrthym nad oedd yn gwybod sut i ddefnyddio'r diffibriliwr • Nid oedd rhai aelodau o'r staff yn gwybod sut i agor y troli dadebru.			
Yn ystod yr arolygiad, gwelsom PPE glân (e.e. masgiau wyneb) i'r staff ac ymwelwyr wedi'u gosod ar ben bin gwastraff clinigol wrth fynedfa'r ward.	O ganlyniad, ni allem gael sicrwydd nad oedd yr eitemau PPE a oedd yn cael eu defnyddio gan y staff ac ymwelwyr ar y ward wedi'u lygru gan y bin gwastraff clinigol brwnt.	Gwnaethom drafod ein pryderon ar unwaith â rheolwr y ward.	Gwnaethom godi hyn ag uwch-aelodau o'r staff a symudodd y PPE ar unwaith, gan greu gorsaf newydd ar gyfer PPE glân.

Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: Ward Claerwen

Dyddiad yr arolygiad: 17 a 18 Ionawr 2023

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd.

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ni nodwyd unrhyw faterion yr oedd angen sicrwydd ar unwaith yn eu cylch yn ystod yr arolygiad hwn.				

Atodiad C - Cynllun gwella

Gwasanaeth: Ward Claerwen

Dyddiad yr arolygiad: 17 a 18 Ionawr 2023

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau ei bod hi'n hawdd i'r cleifion wybod pa staff sy'n siarad Cymraeg.	Cyfathrebu'n effeithiol	- Mae prosesau ar waith gan Fwrdd Iechyd Addysgu Powys (BIAP) ar gyfer sicrhau y caiff aelodau o staff sy'n siarad Cymraeg wisg â bathodyn iaith Gwaith wedi'i frodio arni. - Mae'r broses dderbyn yn nodi pa iaith y byddai'n well gan y claf ei defnyddio, byddwn yn cyflawni cydymffurfiaeth o 100% yn y maes hwn. - Lle nad oes siaradwyr Cymraeg ar gael, byddwn yn	- Rheolwr y Ward - Rheolwr Gwasanaethau Cymunedol - Pennaeth Nyrsio	Adolygiad misol yn ystod cyfarfodydd 1:1 ac yn ystod y broses recriwtio. Archwiliad o Gofnod Clinigol Nyrsio Cymru (WNCR) bob mis

		cynnwys aelodau'r teulu a gwasanaeth cyfieithu er mwyn gwneud yn siŵr y gellir siarad â'r cleifion yn eu dewis iaith. • Bydd y timau nyrsio yn cynnwys hyfforddiant ymwybyddiaeth o'r Gymraeg fel rhan o'u hyfforddiant gorfodol, gan anelu at gyrraedd targed o 85% erbyn mis Awst 2023 • Bydd y gwaith i uwchraddio'r uned Therapi RiTA yn cynnwys deunydd Cymraeg. • Mae ffolderi cyfathrebu i'w cadw wrth ymyl y gwelyau wrthi'n cael eu datblygu. Byddant yn ddwyieithog ac yn cynnwys lluniau.		Awst 2023 Rydym yn disgwyl penderfyniad ynghylch cyllid ym mis Mehefin 2023 Gorffennaf 2023
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau ei fod yn defnyddio'r holl fentrau gofal dementia sydd ar gael ar y ward yn llawn.	Cyfathrebu'n effeithiol	• Mae bwrdd Gofal Dementia ar y ward • Mae'r defnydd o'r cynllun pili pala wedi gwella ar y bwrdd Cleifion ar Statws Cleifion	• Rheolwr y Ward • Rheolwr Gwasanaethau Cymunedol	Wedi'i gwblhau

		• Mae eiconau'r cynllun pili pala wedi'u harchebu er mwyn eu rhoi yn ardal gwelyau'r cleifion. • Bydd y Nyrs Glinigol Arbenigol ar gyfer Dementia a'r Rheolwr Gwasanaethau Cymunedol yn ymweld â'r ward ac yn adolygu meysydd i'w gwella o dan y siarter dementia. • Daeth y Nyrs Glinigol Arbenigol ar gyfer Dementia i gyfarfod y ward (Chwefror 2023) er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r staff • Disgwylir i'r staff fod wedi cwblhau hyfforddiant Dementia (e-Ddysgu) a hyfforddiant Paull Ridd (e-Ddysgu) hyd at lefel o 85% • Mae nyrs gyswllt ar gyfer Dementia yn gweithio gyda'r rhaglen Dementia.	• Nyrs Glinigol Arbenigol • Rheolwr y ward • Nyrs Glinigol Arbenigol/Rheolwr Gwasanaethau Cymunedol • Rheolwr y ward/Nyrs Glinigol Arbenigol • Rheolwr y ward/Band 6 sy'n gyfrifol am oruchwyllo Nyrsys Clinigol Arbenigol	Ebrill 2023 Trefnwyd ar gyfer 28 Mawrth 2023 Wedi'i gwblhau Mis Medi 2023 er mwyn cyflawni cyfradd o 85% Wedi'i gwblhau Cyfarfodydd misol gan gynnwys Rheolwr y ward Mehefin 2023
--	--	---	--	--

		• Disgwylir i'r adnodd CAREFITVIPS gael ei gyflwyno ledled Powys yn ystod 2023 fel rhan o'r siarter ysbytai dementia. • Uwchraddio therapi RiTA - cyflwynwyd cais i'r panel ar gyfer cytundeb cyllido.	• Pennaeth Nyrsio Rheolwr Gwasanaethau Cymunedol	
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff ffolderi gwybodaeth newydd i gleifion eu cynhyrchu a'u bod ar gael cyn gynted â phosibl.	Gwybodaeth i gleifion	• Mae ffolderi i'w cadw wrth ymyl y gwely wrthi'n cael eu datblygu, o dan arweiniad Rheolwr y ward. • Ffocws amlddisgyblaethol dwyieithog • Y gwasanaeth cyfieithu i fod yn rhan o'r broses ac i sicrhau cywirdeb. • Rhannu ledled Powys ar gyfer prosiect gwella ansawdd.	• Rheolwr y ward • Rheolwr Gwasanaethau Cymunedol	Gorffennaf 2023
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff penderfyniadau am bob agwedd ar y broses o ryddhau cleifion eu dogfennu'n llawn	Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth	• Diweddarau'r bwrdd Cipolwg ar Statws Cleifion mewn amser real er mwyn gallu	• Rheolwr y ward	Archwiliad misol ac adborth yn ystod cyfarfodydd tîm.

yng nghofnodion y cleifion ac ar WNCR.		cynllunio ar gyfer rhyddhau cleifion. - Cynnal archwiliad o Gofnod Gofal Nyrsio Cymru (WNCR) bob mis er mwyn monitro cynnydd. - Cynigir awgrymiadau gan dîm y Cofnod Gofal ar ôl dadansoddi systemau.	- Rheolwr Gwasanaethau Cymunedol - Pennaeth Nyrsio	Bob wythnos gan gyflwyno gwybodaeth bob mis i grŵp ansawdd a diogelwch y Grŵp Gwasanaethau Cymunedol.
Rhaid i'r bwrdd iechyd roi proses ffurfiol reolaidd ar waith ar gyfer casglu adborth gan y cleifion a chan aelodau o'u teuluoedd a gofalwyr.	Gwrando a dysgu o adborth	- Rhoddwyd arolygon adborth ar waith ar y ward. - Mae BIAP wedi dechrau defnyddio rhaglen amserlennu CIVICA. - Rhoddir adborth yn ystod cyfarfodydd profiad y claf BIAP a chaiff ei rannu â thimau ar lefel wardiau. - Caiff ffurflenni adborth ei rhoi i'r cleifion ar y diwrnod y byddant yn cael eu rhyddhau er mwyn lleihau'r tebygolrwydd o ragfarn.	- Rheolwr y ward/Dirprwy - Rheolwr Gwasanaethau Cymunedol - Pennaeth Nyrsio - Arweinydd Llywodraethu	Adolygiad bob mis Bob deufis Wedi'i gwblhau

		Mae byrddau wedi'u diweddarau ar y wardiau yn cynnwys gwybodaeth am sut i gwyno, gan gynnwys manylion gwasanaeth yr ombwdsmon. Maent wedi'u lleoli wrth fynedfa/allanfa'r ward.		
Rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu trefniadau mynediad y ward er mwyn gwneud yn siŵr nad ydynt yn tarfu ar y cleifion.	Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch	Archebwyd cloch ar gyfer y drws - mae modd newid lefel sain y gloch er mwyn sicrhau na fydd yn tarfu gormod ar y cleifion.	Rheolwr y ward	Ebrill 2023
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod yr amgylchedd yn parhau'n addas i'r cleifion hyd nes y caiff y gwaith adnewyddu ei gwblhau, a fyddai'n cynnwys ymdrin â'r materion a restrir yn yr adroddiad hwn, ond heb fod yn gyfyngedig i hynny.	Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch	- Lloriau - tâp rhwng yr arwynebau - gofynnwyd i'r adran ystadau ddod o hyd i ddatrysiad interim. - Dŵr yn gollwng - nid yw'r mater hwn yn effeithio ar ardaloedd sy'n hygyrch i'r cleifion. Rydym yn aros i waith atgyweirio gael ei gynnal ar y to.	- Ystadau - Rheolwr Gwasanaethau Cymunedol - Pennaeth Nyrsio	Ebrill 2023

		• Mae Ward Claerwen ar y rhestr ar gyfer gwaith adnewyddu		
Rhaid i'r bwrdd iechyd ddarparu tystiolaeth o gynnydd a'r camau gweithredu a gymerwyd ers yr arolygiad mewn perthynas â gwella'r dystiolaeth a'r ddogfennaeth iechyd a diogelwch.	Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch	• Cynhaliwyd adolygiad iechyd a Diogelwch. • Caiff asesiad risg wedi'i ddiweddarau ei gynnal ar y ward. • Cafodd y ffolder iechyd a diogelwch ei ddiweddarau ac mae asesiadau risg ychwanegol wedi'u cynnwys; ○ Asesiad risg diffibrilwyr ○ Anodd asesu risg straen unigol ○ Asesiad risg i famau beichiog ○ Asesiad risg cyfarpar sgrin arddangos - Prynwyd cadeiriau y gellir addasu eu uchder o ganlyniad i'r asesiad hwn. ○ Asesiad risg codi a chario	• Rheolwr y ward • Rheolwr Gwasanaethau Cymunedol • Cymorth iechyd a diogelwch • Pennaeth Nyrsio • Arweinydd iechyd a Diogelwch y Gyfarwyddiaeth	Mawrth 2023 Ebrill 2023 Chwefror 2023 Ionawr 2023 Ionawr 2023 Ionawr 2023 Medi 2022 Ionawr 2023

		○ Cynhaliwyd asesiad COSSH ar gyfer Acticlор. • Caiff iechyd a diogelwch ei ychwanegu at yr agenda safonol ar gyfer cyfarfodydd arweinwyr y ward a chyfarfodydd y ward er mwyn sicrhau y caiff y wybodaeth ddiweddaraf ac unrhyw faterion eu cyfleu. • Lluniwyd Archwiliad Amgylcheddol ac fe'i diweddarwyd ar 14/03/23 i gynnwys cadarnhau bod y cwpwrdd glanhau wedi'i gloi pan nad yw'n cael ei ddefnyddio.		Rhagfyr 2022 Mehefin 2023
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff cynlluniau gofal croen eu datblygu fel sy'n ofynnol ar ôl cynnal asesiadau croen.	Atal briwiau pwyso a niwed i feinweoedd	• Nododd haparchwiliad gan y Rheolwr Gwasanaethau Cymunedol ym mis Chwefror 2023 fod y broses hon wedi'i chwblhau heb unrhyw hepgoriadau. • Mae archwiliadau misol yn cael eu cynnal o hyd ac	• Rheolwr y Ward/Rheolwr Gwasanaethau Cymunedol	Adolygiad bob mis

		adroddir arnynt drwy grŵp ansawdd a diogelwch y Grŵp Gwasanaethau Cymunedol.		
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff cleifion eu hail-leoli drwy gydol y dydd a'r nos lle y bo'n berthnasol.	Atal briwiau pwyso a niwed i feinweoedd	• Cafodd y staff eu hatgoffa i ddogfennu digwyddiadau lle na lwyddwyd i roi gofal yn unol â'r amserlenni gofynnol, gan nodi'r rheswm am hynny. • Caiff archwiliadau misol eu cwblhau er mwyn monitro'r sefyllfa. • Rhoddir gwybod am friwiau pwyso a gafwyd yn yr ysbyty drwy'r panel craffu ar gyfer briwiau pwyso. • Caiff Archwiliad Briwiau Pwyso Blynnyddol ei gynnal a chyflwynir adroddiad arno.	• Rheolwr y Ward • Rheolwr Gwasanaethau Cymunedol • Rheolwr Gwasanaethau Cymunedol • Pennaeth Nyrsio • Nyrs Hyfywedd Meinwe (TVN)/Nyrs Glinigol Arbenigol	Archwiliad bob mis gan reolwr y ward. Rhoddir gwybod am eithriadau drwy'r Rheolwr Gwasanaethau Cymunedol Mehefin 2023

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y staff yn monitro cleifion mor aml ag y nodir yn eu cynlluniau gofal.	Atal briwiau pwyso a niwed i feinweoedd	• Cafodd y staff eu hatgoffa i ddogfennu digwyddiadau lle na lwyddwyd i roi gofal yn unol â'r amserlenni gofynnol, gan nodi'r rheswm am hynny. • Bydd nodiadau trosglwyddo'r ward yn cynnwys amllder arsylwi/monitro. • Caiff archwiliadau misol eu cwblhau er mwyn monitro'r sefyllfa.	• Rheolwr y Ward/Rheolwr Gwasanaethau Cymunedol/Pennaeth Nyrsio	Adolygiad bob deufis
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff cynlluniau gofal cwympiadau eu llunio ar gyfer y cleifion sydd eu hangen.	Atal cwympiadau	• Bydd y broses o nodi'r risg o gwmpo yn arwain at lunio cynllun gofal er mwyn lliniaru cwympiadau mewn ffordd sy'n canolbwyntio ar y claf		
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y cleifion yn cael eu hasesiad risg o gwmpo mewn modd amserol.	Atal cwympiadau	• Bydd asesiad risg o gwmpo yn cael ei gynnal ar gyfer pob claf o fewn 6 awr o'i dderbyn. • Caiff pob achos lle bydd claf yn gwmpo ei adolygu drwy'r panel craffu ar gwympiadau	• Rheolwr y ward • Rheolwr Gwasanaethau Cymunedol • Pennaeth Nyrsio	Adroddiadau WNCR wythnosol - rhoddir gwybod am eithriadau drwy gyfarfodydd 1:1 misol

		a chaiff y gwersi a ddysgwyd/canlyniadau eu rhannu drwy gyfarfodydd/adborth ar y ward.		
Rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu'r polisi lleihau cwympiadau.	Atal cwympiadau	Mae angen adolygu'r polisi	Cyfarwyddwr Nyrsio Cynorthwyol	Mehefin 2023
Rhaid i'r bwrdd iechyd atgoffa'r staff am eu cyfrifoldebau mewn perthynas â hylendid dwylo effeithiol a sicrhau bod archwiliadau yn effeithiol wrth dynnu sylw at achosion lle nad yw'r staff yn cydymffurfio	Atal a rheoli heintiau	- Eitem safonol ar agenda cyfarfodydd y ward - Mae tîm nyrsys cyswllt ar gyfer atal a rheoli heintiau bellach wedi'i sefydlu ac yn arwain y gwaith mewn ffordd gadarnhaol. - Y tîm atal a rheoli heintiau i gynnal hapwiriadau ar y ward ac i gynnal hyfforddiant hylendid dwylo uwchfioled. - Lefelau hyfforddiant gorfodol atal a rheoli heintiau i gyrraedd 85%	- Rheolwr y ward - Atal a Rheoli Heintiau	Mawrth 2023 Chwefror 2023 Ebrill 2023 Awst 2023 Chwefror 2023

		Ychwanegwyd gel dwylo at y troli nodiadau ar ôl nodi bod angen gwella ymarfer.		
Rhaid i'r bwrdd iechyd weithredu i sicrhau bod y staff yn cydymffurfio â'r polisi o ran gwisg bob amser.	Atal a rheoli heintiau	- Arolygiad dyddiol gan y nyrs â chyfrifoldeb - nid oes unrhyw staff yn gwisgo oriawr mwyach ac mae nifer y staff sy'n gwisgo gemwaith wedi lleihau, gan gynnwys staff asiantaeth. - Mae pob aelod o'r staff wedi llofnodi i gadarnhau eu bod wedi darllen ac wedi deall y polisi o ran gwisg. - Trefniadau monitro misol ac mae diweddariad wedi'i gynnwys ar yr agenda safonol ar gyfer cyfarfodydd y ward - Caiff sgysiau P-File eu cofnodi os bydd achosion yn parhau.	- Rheolwr y ward - Arweinydd Atal a Rheoli Heintiau - Dirprwy reolwr y ward	Wedi'i gwblhau
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y cwpwrdd glanhau wedi'i gloi bob amser pan nad yw'n cael ei ddefnyddio er mwyn	Atal a rheoli heintiau	Hapwiriadau dyddiol er mwyn sicrhau bod y staff domestig wedi cloi'r	- Cyfleusterau - Rheolwr y ward	Gwaith monitro wythnosol.

atal mynediad heb awdurdod i ddeunyddiau glanhau peryglus.		cwpwrdd pan nad yw'n cael ei ddefnyddio. Ychwanegwyd hysbysiadau ar y drysau hefyd er mwyn atgoffa'r staff.	Rheolwr Gwasanaethau Cymunedol	
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff anghenion unigol pob claf eu dogfennu, yn enwedig o ran nodi pa gymorth sydd ei angen.	Maeth a hydradu	- Defnyddir byrddau wrth ymyl gwelyau'r cleifion i nodi anghenion unigol. - Defnyddir siartiau bwyd pan fo angen monitro bwyd a hylif cleifion a chaiff y siartiau hyn eu cwblhau pan fo angen eu defnyddio. - Defnyddir y ddogfennaeth 'Dyma fi' ac mae'n cynnwys dewisiadau bwyd. - Caiff hambwrdd/jwg coch ei ddefnyddio i nodi cleifion y mae ganddynt ofynion penodol/y mae angen cymorth arnynt i fwyta. - Ychwanegwyd dewisiadau bwyd/diod at fwrdd y claf,	- Rheolwr y Ward - Rheolwr Gwasanaethau Cymunedol - Pennaeth Nyrsio	Adolygiad bob mis Rhaglen Archwiliadau Maeth a Hydradu Blynnyddol

		ynghyd â manylebau deietegol.		
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod digon o staff ar gael i helpu'r cleifion i fwyta unwaith y bydd y bwyd wedi'i weini er mwyn gwneud yn siŵr bod y bwyd yn boeth ac yn addas i'w fwyta o hyd.	Maeth a hydradu	• Caiff y cleifion y mae angen cymorth arnynt i fwyta eu nodi cyn dechrau gweini'r pryd bwyd a chaiff aelodau o staff eu neilltuo i'w helpu. • Caiff aciwtedd ac anghenion y cleifion eu hasesu a gwneir cais am aelodau ychwanegol o staff. • Gwahoddir aelodau o'r teulu i fod yn bresennol yn ystod amseroedd prydau er mwyn helpu'r cleifion - nodir bod amseroedd bwyd cymdeithasol yn gwella lefelau maeth y cleifion. • Cynhaliwyd Archwiliad Arlwyo/Maeth blynyddol	• Rheolwr y Ward • Rheolwr Gwasanaethau Cymunedol • Pennaeth Nyrsio	Archwiliad arsylwi misol.
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff tymheredd yr ystafell ei gofnodi'n gyson yn ystafell y clinig.	Rheoli meddyginiaethau	• Cedwir cofnodlyfr dyddiol bob dydd - cydymffurfiaeth o 100% gan gynnwys ar benwythnosau.	• Rheolwr y ward • Mae hapwiriadau gan y Rheolwr Gwasanaethau	Wedi'i gwblhau a chynhelir adolygiad bob mis.

			Cymunedol yn cadarnhau y caiff 100% eu cwblhau. • Fferyllfa	
Rhaid i'r bwrdd iechyd ychwanegu canllawiau at y taflenni gwirio tymheredd.	Rheoli meddyginiaethau	• Mae canllawiau ar gyfer gwirio'r tymheredd wedi'u cynnwys yn y ffeil	• Fferyllfa • Rheolwr y ward	Wedi'i gwblhau
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod Siartiau Cyffuriau Cymru Gyfan wedi'u hysgrifennu'n glir a'u bod yn cynnwys y dos cywir a ragnodwyd i'r staff ei roi.	Rheoli meddyginiaethau	• Cynhaliwyd hapwiriadau o'r siartiau gan y Rheolwr Gwasanaethau Cymunedol ym mis Chwefror 2023 - roedd pob un yn gywir ac yn glir • Mae'r bwrdd iechyd yn bwriadu datblygu trefniadau e-ragnodi yn 2023 • Mae'r staff yn gwybod sut i herio presgripsiwn anghywir a chael presgripsiwn diwygiedig. • Caiff digwyddiadau eu cofnodi ar Datix er mwyn gallu eu monitro a'u huwchgyfeirio drwy	• Rheolwr y ward • Rheolwr Gwasanaethau Cymunedol • Tîm digidol • Pennaeth Nyrsio	Bob mis

		arweinydd priodol y bwrdd iechyd.		
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod mwy o nodwyddau â dyfeisiau diogelwch ar gael.	Rheoli meddyginiaethau	- Mae cyflenwad llawn o nodwyddau diogelwch. Mater rheoli ac ailgyflenwi stoc oedd y mater hwn ac mae wedi'i ddatrys. - Mae'r staff wedi cael diweddariad ar drefniadau cylchdroi stoc ac ailgyflenwi stoc.	Rheolwr y ward	Wedi'i gwblhau
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff asesiadau DoLS eu cynnal pan fo angen ac y cânt eu cofnodi'n briodol yng nghofnodion y cleifion er mwyn sicrhau na chaiff y cleifion eu hamddifadu o'u rhyddid mewn ffordd anghyfreithiol.	Diogelu plant a diogelu oedolion sy'n wynebu risg	- Mae'r staff wedi cael y wybodaeth ddiweddaraf am y broses/polisi cywir i'w dilyn wrth ddogfennu asesiadau DoLS. - Mae unigolyn cyswllt penodedig ar y ward. - Rhoddir gwybod i'r grŵp strategol ar gyfer diogelu am unrhyw eithriadau. - Mae'r tîm yn anelu at gyflawni 85% ar gyfer hyfforddiant Diogelu lefel 1 a	- Rheolwr y ward - Rheolwr Gwasanaethau Cymunedol - Diogelu	Adolygiadau misol o gydymffurfiaeth â hyfforddiant

		2, hyfforddiant DoLS a hyfforddiant ar y Ddeddf Galluedd Meddyliol.		
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff y cloriannau pwyso, a chyfarpar tebyg arall ar y ward, eu graddnodi'n rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn rhoi mesuriadau cywir	Dyfeisiau, cyfarpar a systemau diagnostig meddygol	• Mae rhaglen ar gyfer graddnodi a gwasanaethu dyfeisiau meddygol ar waith. • Lle bydd y dyddiad a argymhellir ar gyfer gwasanaethu dyfeisiau wedi mynd heibio, caiff y mater ei uwchgyfeirio drwy'r panel dyfeisiau meddygol. • Byddwn yn sicrhau bod y tîm yn deall y prosesau cywir ar gyfer rheoli cyfarpar. • Mae cyswllt cyfarpar penodedig ar lefel y ward.	• Rheolwr y Ward • Rheolwr Gwasanaethau Cymunedol • Dyfeisiau Meddygol	Bob mis
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff system ei rhoi ar waith i fonitro'r dyddiadau ar gyfer gwasanaethu neu adnewyddu cyfarpar.	Dyfeisiau, cyfarpar a systemau diagnostig meddygol	• Mae rhaglen ar gyfer graddnodi a gwasanaethu dyfeisiau meddygol ar waith.	• Dyfeisiau meddygol • Rheolwr y Ward • Rheolwr Gwasanaethau Cymunedol	Wedi'i gwblhau

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff penderfyniadau am weithdrefnau uwchgyfeirio ar gyfer achosion lle yr amheuir sepsis eu dogfennu'n glir i'r staff eu dilyn.	Gofal diogel a chlinigol effeithiol	• Mae bwrdd sepsis wedi'i greu ar y ward. • Mae cynlluniau uwchgyfeirio triniaeth ar waith yn BIAP er mwyn sicrhau y caiff y broses ar gyfer uwchgyfeirio achosion pan fydd claf yn gwaethygu ei hystyried wrth gynllunio'r gofal ar gyfer pob claf. • Mae BIAP wrthi'n adolygu'r llwybr penderfyniadau gofal er mwyn sicrhau y caiff y ddogfennaeth i esbonio'r broses ei chadw mewn un man. • Mae siartiau NEWS lliniarol yn cael eu hystyried yn unol â'r llwybr penderfyniadau gofal drwy'r grŵp strategol ar gyfer gofal lliniarol.	• Arweinydd gofal lliniarol • Rheolwr y Ward • Pennaeth Nyrsio • Rheolwr Gwasanaethau Cymunedol	Rhoddir gwybod am eithriadau bob mis
Rhaid i'r bwrdd iechyd wella'r broses o gofnodi ac arddangos gwybodaeth gyfredol am y cleifion i'r staff.	Gofal diogel a chlinigol effeithiol	• Mae'r bwrdd Cypolwg ar Statws Cleifion wedi'i ddiweddarau ac ystyrir ei fod bellach yn fyw.	• Rheolwr y ward/Dirprwy	Wedi'i gwblhau ond cynhelir hapwiriadau misol.

		Rydym yn bwriadu symud y bwrdd hwn i swyddfa'r Nyrsys	Ystadau	Mai 2023
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y bwrdd 'Sut rydym yn perfformio' yn gyfredol er mwyn darparu gwybodaeth amser real a chodi ymwybyddiaeth o unrhyw welliannau sydd eu hangen.	Gwella ansawdd, ymchwil ac arloesi	- Diweddarwyd ar unwaith. - Ceir diweddariadau misol - Hapwiriadau gan ymwelwyr â'r ward.	- Rheolwr y ward - Rheolwr Gwasanaethau Cymunedol - Pennaeth Nyrsio	Wedi'i gwblhau - Trefniadau goruchwyllo/hapwiriadau misol.
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff yr holl ddogfennaeth nyrsio ei chadw'n unol â'r canllawiau safonau clinigol.	Cadw cofnodion	Symudwyd y ffolderi ar gyfer cynlluniau gofal y cleifion o'r coridor i'r ardal wrth ymyl gwely'r claf. Dilyswyd y cynnwys yn erbyn y safonau ac aeth y tîm ati i'w ddiweddarau gan ddilyn canllawiau safonau clinigol.	Rheolwr y ward	Wedi'i gwblhau
Rhaid i'r bwrdd iechyd roi sicrwydd pellach ar y prosesau a roddwyd ar waith ers yr arolygiad i wella diogelwch cofnodion y cleifion yn yr ystafell y tu ôl i orsaf y nyrsys ac yn ystod rowndiau'r ward.	Cadw cofnodion	- Archebwyd troli nodiadau y gellir ei gloi. - Mae angen newid ymarfer - atgoffwyd y staff fel rhan o'r gwaith monitro y dylid eu cadw ar gau wrth eu defnyddio. Mae hyn yn	- Rheolwr y ward - Rheolwr Gwasanaethau Cymunedol - Pennaeth Nyrsio	Adolygiad Datix misol Archwiliad misol Archwiliad arsylwi ar ffurf hapwiriadau

		berthnasol i'r staff meddygol hefyd. • Caiff digwyddiadau eu cofnodi ar Datix lle na cheir cydymffurfiaeth er mwyn sicrhau bod trefniadau monitro, goruchwyllo ac uwchgyfeirio ar waith.	• Cyfarwyddwr Meddygol Cynorthwyol	
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cael ei adolygiad arfarnu a datblygu perfformiad blynyddol mewn modd amserol.	Llywodraethu, Arweinyddiaeth ac Atebolrwydd	• Mae'r gyfradd PADR ar gyfer gweithwyr cymorth gofal iechyd wedi gwella i 80% ac ar gyfer nyrsys cofrestredig i 64% • Mae llwybr gwella ar waith • Mae'r ffaith bod rhai aelodau o staff ar gyfnod o absenoldeb tymor hir oherwydd salwch yn achosi rhywfaint o oedi wrth gyflawni 85% • Rydym yn anelu at gyflawni 85%	• Rheolwr y ward/Dirprwy	85% erbyn mis Awst 2023

Rhaid i'r bwrdd iechyd roi system well ar waith ar gyfer monitro cydymffurfiaeth â hyfforddiant.	Llywodraethu, Arweinyddiaeth ac Atebolrwydd	• Mae'r gyfradd hyfforddiant gorfodol ar gyfer gweithwyr cymorth gofal iechyd wedi gwella i 86% ac mae hyfforddiant nyrsys cofrestredig wedi gwella i 70%. • Trefnwyd hyfforddiant Cynnal Bywyd Sylfaenol/Canolraddol yn unol â'r dyddiadau a oedd ar gael. • Caiff hyfforddiant Dementia/Cwympiadau/Paull Ridd ei ychwanegu at yr hyfforddiant gorfodol ar gyfer wardiau. • Rydym yn ymdrin â'r aelodau o staff â lefelau cydymffurfiaeth cyson isel. • Caiff yr hyfforddiant ei adolygu bob mis gan reolwr y ward a'r Rheolwr Gwasanaethau Cymunedol a rhoddir gwybod am	• Rheolwr y ward • Rheolwr Gwasanaethau Cymunedol • Pennaeth Nyrsio • Tîm addysg	Adolygiad misol o'r ganran.
---	--	--	---	------------------------------------

		eithriadau drwy'r grŵp ansawdd a diogelwch.		
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff cydymffurfiaeth y staff â hyfforddiant Cynnal Bywyd Canolraddol ei hystyried wrth lunio rhestrau gweithio er mwyn sicrhau bod y staff sy'n gweithio ar bob shift yn meddu ar y sgiliau priodol os bydd argyfwng.	Llywodraethu, Arweinyddiaeth ac Atebolrwydd	- Trefnwyd hyfforddiant Cynnal Bywyd Brys i bob aelod o'r staff. - Mae'r broses o gynllunio rhestrau gweithio yn anelu at sicrhau bod staff sydd wedi cwblhau hyfforddiant Cynnal Bywyd Brys ar gael ar bob shift. Ychwanegwyd nodiadau at y rhestr gweithio. - Gwnaed cais i bob ward roi'r un broses ar waith. - Mae proses graffu ar y rhestr gweithio ar waith - i'w ychwanegu at ffurflen gymeradwyo'r broses graffu ar gyfer y llwybr archwilio mewn perthynas â chydymffurfiaeth.	- Rheolwr y ward - Rheolwr Gwasanaethau Cymunedol - Pennaeth Nyrsio	Bob mis

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff y staff eu hysbysu am unrhyw welliannau a nodir yn sgil archwiliadau, digwyddiadau neu hysbysiadau diogelwch cleifion cenedlaethol.	Llywodraethu, Arweinyddiaeth ac Atebolrwydd	• Rhoddwyd agenda ward safonol ar waith ar gyfer ardaloedd o'r ward er mwyn sicrhau y caiff adborth ei gasglu. • Mae ffolder cyfathrebu ar gael i bob aelod o'r staff ei ddarllen er mwyn sicrhau bod cofnodion, hysbysiadau diogelwch ac ati ar gael iddynt. • Caiff Gweithdrefn Weithredu Safonol ei llunio ar gyfer hysbysiadau diogelwch cleifion a'i rhannu. • Mae hysbysfwrdd yn ystafell gyfarfod y ward sy'n cynnwys yr holl wybodaeth ddiweddaraf.	• Rheolwr y ward • Pennaeth Nyrsio • Rheolwr Gwasanaethau Cymunedol • Tîm nyrsio'r ward • Rheolwr y Ward • Arweinydd Llywodraethu'r Grŵp Gwasanaethau Cymunedol	Wedi'i gwblhau - caiff y cofnodion eu rhannu â'r Rheolwr Gwasanaethau Cymunedol bob mis at ddibenion dadansoddi ac archwilio. Wedi'i gwblhau Mai 2023
Rhaid i'r bwrdd iechyd gynnwys y staff a chyfathrebu â nhw wrth werthuso'r	Y Gweithlu	• Mae pob adolygiad staffio yn cynnwys prosesau triongli data a barn broffesiynol.	• Rheolwr y Ward • Pennaeth Nyrsio	Dwywaith y flwyddyn

dystiolaeth fel rhan o'r adolygiad staffio nesaf.		• Caiff timau nyrsio'r ward eu hysbysu ymlaen llaw am yr adolygiadau ac anogir rheolwyr y ward i rannu safbwyntiau'r tîm yn ystod y trafodaethau hyn. • Mae blwch awgrymiadau ar gael i'r staff ar y ward. Adolygwyd yr awgrymiadau a gafwyd ac mae rhai o'r awgrymiadau da, gan gynnwys gwisgoedd ar gyfer yr haf, wedi cael eu rhoi ar waith o ganlyniad.	• DDON	Dwywaith y flwyddyn Adolygiad bob mis
---	--	--	--	---

- Caiff timau nyrsio'r ward eu hysbysu ymlaen llaw am yr adolygiadau ac anogir rheolwyr y ward i rannu safbwyntiau'r tîm yn ystod y trafodaethau hyn.
- Mae blwch awgrymiadau ar gael i'r staff ar y ward. Adolygwyd yr awgrymiadau a gafwyd ac mae rhai o'r awgrymiadau da, gan gynnwys gwisgoedd ar gyfer yr haf, wedi cael eu rhoi ar waith o ganlyniad.

- DDON

Dwywaith y flwyddyn

Adolygiad bob mis

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Enw (priflythrennau): Linzi Shone

Dyddiad: 14 Mawrth 2023